



# **HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG**

**CYNLLUN IAITH GYMRAEG**

**A BARATOWYD O DAN**

**DDEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993**

## **HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG**

### **Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i baratoi yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993**

Derbyniodd y cynllun hwn gymeradwyaeth  
Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14(1) o'r Ddeddf  
ar 24 Gorffennaf 1998.

# Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

## Cynllun Iaith Gymraeg

“Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, y gwasanaeth heddlu ar gyfer rheilffyrdd Prydain Fawr, wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.”

# Datganiad yr Heddlu

## Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

### **EIN HAMCANION**

Sicrhau bod ein rheilffyrdd yn ddiogel

### **EIN HYMRWYMIAD**

Rhwystro a chanfod troseddau ac i leihau gofid am droseddau

### **EIN HATHRONIAETH**

Rhoi dioddefwyr yn gyntaf

Bod yn gwrtais, gofalgarn a thosturiol

Cynnal y gyfraith heb ofn, ffafr na rhagfarn

Gweithio mewn partneriaeth gyda'r gymuned rydym yn ei gwasanaethu

Trin pob galwad am wasanaeth fel pe bai wedi dod oddi wrth aelod o'n teulu ni ein hunain.

## **1. RHAGARWEINIAD**

Yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (HTP) yw'r Heddlu ar gyfer rheilffyrdd Prydain a'n busnes yw i reoli'r rheilffyrdd mor effeithiol ag sy'n bosibl. Mae hyn yn rhoi'r Heddlu yng nghanol cadw'r heddwch ym Mhrydain, gan drin yr un troseddau – ac yn aml yr un troseddwr – â heddluoedd eraill, gan ddefnyddio'r un data, gwybodaeth, ymchwil ac adnoddau eraill, ac ymateb i'r un blaenoriaethau cyhoeddus a gwleidyddol. Mae'r HTP yn unigryw oherwydd mae'n gorff arbenigol sy'n darparu gwasanaeth ymroddedig o fewn amgylchfyd heriol trafndiaeth rheilffyrdd.

Y boblogaeth mae'r Heddlu'n ei gwasanaethu'n bennaf yw pobl sy'n defnyddio, yn gweithio o fewn ac yn rheoli rhwydwaith rheilffyrdd Prydain, er bod elfen bwysig o'n gwasanaeth ar gyfer y gymuned yn gyffredinol. I bwrpas ystadegol, ac yn enwedig i fesur dangosyddion perfformiad yr heddlu y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, mae'r "boblogaeth blismona" wedi ei hasesu'n annibynnol a'i derbyn gan Brif Arolygydd Heddlu Ei Mawrhydi a phwyllgor yr HTP fel ffigwr sy'n agos i dair miliwn, er bod mwy o bobl na hynny yn defnyddio'r rheilffyrdd bob dydd. Mae'r boblogaeth honno wedi'i gwasgaru o Ogledd yr Alban i Dde-Orllewin Lloegr, yn cynnwys Cymru, ac mae'n symud yn barhaus ar hyd mwy na 10,000 o filltiroedd o gledrau a 2,500 o orsafoedd, neu yn gweithio yn y miloedd o gilffyrdd, iardiau, depos, swyddfeydd ac adeiladau eraill ac yn cyflwyno sialens plismona anodd ac unigryw.

### **1.1 Dull Partneriaeth**

Hanfod plismona yw trwy nifer o bartneriaethau ac mae'r HTP yn parhau i adeiladu cysylltiadau hollbwysig â'r cyhoedd sy'n teithio, rheolwyr y rheilffyrdd a'u staff – i gyd yn gyfranogion allweddol yn y diwydiant rheilffyrdd newydd. Yn ogystal, mae'r Heddlu'n dilyn ei amcanion plismona (a gyhoeddir yn ei Gynllun Plismona Blynnyddol) mewn partneriaeth â nifer o gyrff eraill, yn cynnwys grwpiau lleol fel Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh, Cymorth i Ddioddefwyr, Crime Concern a Crimestoppers.

Mae Pwyllgor yr HTP yn gyfrifol yn gyfreithiol am gynnal gwasanaeth heddlu sy'n ddigonol ac effeithiol drwy ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i'r Prif Gwnstabl allu cyflawni ei waith.

Mae ymroddiad y llywodraeth i gynnal yr HTP fel heddlu cyhoeddus unedig sy'n darparu plismona cyfraith a threfn i reilffyrdd Prydain, gan gynnwys Gwasanaeth Tanddaearol Llundain a Rheilffordd Ysgafn Rhanbarth y Dociau, hefyd yn angenrheidiol ar gyfer llwyddiant. Pwy bynnag sy'n berchen ar y rheilffyrdd, parhânt i fod yn fannau cyhoeddus ac mae'n rhaid diogelu'r mannau hyn gan heddlu sy'n atebol i'r cyhoedd a phwerau angenrheidiol ganddynt i weithredu eu dyletswyddau'n effeithiol a chyflawn.

Mae'r Heddlu yn ymroi i ddarparu gwasanaethau plismona craidd i gynnal cyfraith a threfn sy'n cynnwys (heb gyfyngiadau) ymgymryd â gwasanaethau diogelu, gwrth-derfysgaeth, atal a datrys troseddau, cadw'r heddwch, dwyn troseddwyd i'r llysoedd a darparu cymorth i ddiodefwyd troseddau.

O fewn y dyletswyddau penodol hyn, ymgynghorir yn eang iawn i ddarparu gwasanaeth heddlu sy'n diwallu gofynion a disgwyliadau cwsmeriaid, a sefydlwyd grwpiau Cyswllt Cwsmeriaid yr Heddlu o fewn wyth rhanbarth gweithredol yr Heddlu, tra mae ymgynghori â'r gymuned yn dasg hanfodol i'r swyddogion sy'n gyfrifol am orsafoedd heddlu ac i Benaethiaid Ardal.

Datgelir barn defnyddwyr y rheilffyrdd ym Mhwyllgor Rhanbarth Defnyddwyr y Rheilffyrdd (gan gynnwys Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Rheilffyrdd dros Gymru) a Phwyllgor Ymgynghorol Canolog Defnyddwyr y Rheilffyrdd. Mae'r Heddlu yn credu fod gan y pwyllgorau defnyddwyr hyn rôl allweddol wrth fynegi barn teithwyr ac yn monitro gweithgareddau'r heddlu, ac yn ceisio cadw cysylltiad agos â hwy. Yn lleol, mae cysylltiad yn bodoli gyda nifer o gyrff cymunedol a chymdogaethol.

Mae yna rwystrau a gwrthbwysau mewn plismona partneriaeth, ond fel rhan o strwythur cenedlaethol plismona Prydain, mae'r Heddlu wedi ei integreiddio'n llawn i ddull gweithredu cwynion sydd wedi'i osod o fewn Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ac fe'i arolygir gan Awdurdod Cwynion Heddlu annibynnol yng Nghymru a Lloegr.

## **1.2 Plismona Gweithredol**

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ym Mhrydain Fawr wedi'i drefnu yn wyth ardal weithredol a phob un ohonynt yn dod o dan reolaeth Pennaeth Rhanbarthol. Ceir tair Ardal gyda chyfrifoldeb plismona yng Nghymru.

Ardal y Gogledd-Orllewin – yn gyfrifol am Ogledd Cymru  
Ardal y Canolbarth – yn gyfrifol am Ganolbarth Cymru  
Ardal y De-Orllewin – yn gyfrifol am Dde a Gorllewin Cymru.

Mae yna bedair gorsaf Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yng Nghymru:

Caerdydd – gweithredu 24 awr y dydd  
Abertawe – gweithredu 24 awr y dydd  
Casnewydd – lleoliad cymunedol, dim staff  
Bangor – nid yw'n gweithredu 24 awr y dydd.

## **2. CYNLLUN IAITH GYMRAEG**

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ymrwmo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth weithredu ei fusnes cyhoeddus dyddiol.

Bydd Cynllun yr Heddlu:

- Yn cydymffurfio â chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac fe fydd yn cael ei adolygu yn ôl deddfwriaeth yn y dyfodol
- Yn creu rhan o Gynllun Strategaeth yr Heddlu ac amcanion Cynllun Plismona ac fe'i ariannir o gyllideb flynyddol yr Heddlu.
- Wedi'i addasu i ddsbarthu negeseuon yr Heddlu mewn dull positif ac effeithiol i bobl Cymru
- Yn cynnwys camau i godi ymwybyddiaeth staff ar bob lefel i sicrhau ymrwymiad i'w lwyddiant
- Yn cael ei arolygu gan Benaethiaid yr Heddlu sydd â chyfrifoldeb rhanbarthol yng Nghymru er mwyn iddo gael ei weithredu'n effeithiol
- Yn parhau heb ei newid oni bai fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cytuno

### **3. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETH**

#### **3.1 Polisiâu a mentrau newydd**

Pan weithredir polisiâu a mentrau newydd, byddwn yn asesu'r goblygiadau ieithyddol i sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun heb ei danseilio.

Pan weithredir polisiâu a mentrau newydd, byddwn yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg bob tro mae hynny'n bosibl a hybu egwyddor cydraddoldeb iaith ar bob cyfle.

Byddwn yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg os bydd newidiadau neu fentrau yn amharu ar gynllun corff cyhoeddus arall (er enghraifft, heddlu arall, y llysoedd, y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac ati).

Bydd polisiâu a mentrau newydd yn gyson gyda Chynllun yr Heddlu ac ni ellir ei newid heb ganiatâd ac awdurdod Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

### 3.2 Gweithredu'r gwasanaeth

Wrth weithredu'r cynllun, bydd yr Heddlu yn sicrhau bod pobl sy'n byw yng Nghymru yn gallu cael gwasanaeth o'n gorsafodded yng Nghymru drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Tra'n gweithredu ein gwasanaeth plismona byddwn, lle bynnag y bydd yn bosibl, yn sicrhau bod y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn gallu derbyn y gwasanaeth hwn drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl ar:

- a) adegau brys
- b) adegau lle gall amharu'n sylweddol ar effeithiolrwydd gweithgareddau'r heddlu.

Gofynnwn i'r cyhoedd nodi mai dim ond ychydig o'n swyddogion a'n staff sifil sy'n gallu siarad Cymraeg ar hyn o bryd ac efallai y bydd y cysylltiad cyntaf rhwng aelod o'r cyhoedd a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig â swyddog di-Gymraeg. Felly, gofynnwn i siaradwyr Cymraeg gydweithredu er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen gydag ymchwiliadau'r Heddlu.

Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau bod rhywun sy'n gallu siarad Cymraeg ar gael cyn gynted ag y bo modd. Pan fyddwn yn gwybod o'r dechrau fod aelod o'r cyhoedd angen gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg, fe ddarperir y gwasanaeth cyn gynted ag y bo modd. Yn benodol, byddwn yn:

- Gwneud cofnod o'r aelodau o staff sy'n gallu siarad Cymraeg a gwneud trefniadau ar gyfer eu horiau gwaith a manylion cyswllt a gedwir yn ganolog yn ein hystafell reoli 24 awr.
- Trefnu i aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg mewn un orsaf i fod ar gael i roi cymorth i orsaf arall os bydd angen;
- Rhannu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg rhwng cyd-heddluoedd a chyrrff eraill sy'n darparu gwasanaeth tebyg, neu brynu'r gwasanaeth oddi wrthynt;
- Cyflogi cyfieithwyr proffesiynol allanol ar sail asiantaeth i ddarparu gwasanaethau penodol pan fo galw am hynny.

Pan yn gweithio neu'n cydweithio â mudiadau eraill yng Nghymru e.e. elusennau, byddwn yn hybu ac yn meithrin defnydd o'r iaith Gymraeg.

Bydd staff sy'n ymwneud â ffurfio polisiâu yn cael eu hysbysu am y Cynllun a chyfrifoldebau'r Heddlu dan y Ddeddf drwy Reolau Sefydlog yr Heddlu, briffiadau a seminarau.

### **3.3 Safon y Gwasanaeth Cymraeg**

Mae'r Heddlu yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd y cyhoedd yn gallu cyfathrebu gyda'r Heddlu naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg fel mater o ddewis personol.

Wrth ymdrin â phobl eraill a chyrrff sy'n ymwneud â gweinyddu cyfraith droseddol yng Nghymru, bydd yr Heddlu yn sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i amlygu'r iaith sydd orau gan yr unigolyn.

Mae'r Heddlu yn ymrwymo i gwrdd â gofynion Siarter y Dinesydd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd safonau yr ydym yn ymgynraedd atynt yn ein mesurau perfformiad allweddol yn cael eu gweithredu mewn perthynas â'r ddwy iaith. Bydd y safonau a'u gweithrediad yn cael eu harolygu'n fanwl. Byddwn yn sicrhau cysondeb yn y gwasanaeth Cymraeg sydd ar gael yn ein gorsafodd heddlu yng Nghymru.

## **4. YMDRIN Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG**

### **4.1 Cyfathrebu mewn ysgrifen**

Mae'r Heddlu yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg a bydd llythyrau yn y Gymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg o fewn yr un amser â gohebiaeth yn Saesneg.

Yn dilyn sgwrs dros y ffôn, neu wyneb yn wyneb yn y Gymraeg, bydd yr ohebiaeth yn dilyn yn yr un iaith.

Pan nad ydym yn gwybod am ddewis iaith y derbynnydd, bydd y llythyr cyntaf yn ddwyieithog.

Pan fo'r derbynnydd yn dewis yr iaith Gymraeg, bydd pob gohebiaeth yn yr iaith honno.

Bydd cylchlythyrau a llythyrau safonol i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

Bydd pob aelod o'r staff yn cael gwybodaeth am y trefniadau yma ac amlinellir y cymorth sydd ar gael i'r aelodau o staff nad ydynt yn siarad Cymraeg i gyfathrebu gyda'r cyhoedd yn Rheolau Sefydlog yr Heddlu.

## **4.2 Cyfathrebu dros y ffôn gyda'r cyhoedd yn ein gorsafodded Cymreig**

Bydd yr Heddlu yn cynnig gwasanaeth yn Saesneg a Chymraeg a bydd pob galwad yn cael ei hateb gyda chyfarfodiad dwyieithog yng ngorsafodded yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yng Nghymru.

Os mai Cymraeg yw dewis iaith yr un sy'n galw, byddwn yn trosglwyddo'r alwad at rywun sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, os nad oes neb ar gael ar y pryd, byddwn naill ai'n cynnig dewis i'r un sy'n galw barhau drwy gyfrwng y Saesneg neu byddwn yn trefnu i siaradwr Cymraeg gysylltu â'r un sy'n galw cyn gynted ag y bo modd.

Bydd pob peiriant ateb ffôn yn cynnwys cyfarfodiad a neges ddwyieithog.

Bydd rhestr o aelodau o'r staff sydd yn siarad Cymraeg yn cael ei llunio a'i chadw gan ein staff sy'n ateb y ffôn yn ein gorsafodded heddlu yng Nghymru.

## **4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus yng Nghymru**

Bydd cofnodion cyfarfodydd ymgynghorol cyhoeddus ar gael yn Gymraeg. Bydd atodiad i'r fersiwn Saesneg yn pwysleisio'r cyfleuster yma.

Bydd croeso i'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg ym mhob cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan yr Heddlu yng Nghymru. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael ar gyfer cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfodydd yma. Byddwn yn sicrhau bod gwahoddiadau, cyhoeddiadau, hysbysiadau a nodiadau sy'n berthnasol i gyfarfodydd cyhoeddus yn datgan fod croeso i'r cyhoedd ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall a bod cyfleusterau cyfieithu wedi eu darparu.

## **4.4 Cyfweiliadau'r Heddlu a chyfarfodydd nad ydynt yn gyhoeddus (er enghraifft dros y cownter, mewn swyddfeydd, yn y cartref, ar leoliad ac ati).**

Bydd croeso i aelodau o'r cyhoedd sydd yn gorfod cael eu cyfweld yn swyddogol gan yr Heddlu, a'r rheiny sydd yn dod i gysylltiad â'r heddlu mewn cyfarfodydd heb fod ar gyfer y cyhoedd, ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall, gan gynnwys ar adegau pan fyddwn yn arestio. I gyflawni hyn, byddwn yn codi arwyddion addas mewn gorsafodded heddlu yn datgan y gellir defnyddio'r naill iaith neu'r llall.

Os cawn ein gwahodd i siarad ag unrhyw fudiadau, cymdeithasau, ysgolion ac ati ynglyn â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, byddwn angen gwybodaeth am ofynion ieithyddol ac, os bydd rhywun ar gael, byddwn yn cynnig siaradwr Cymraeg.

## **4.5 Delwedd Gyhoeddus yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig**

Bydd delwedd gyhoeddus yr Heddlu yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog.

### **Delwedd Gorfforaethol**

Bydd pob papur pennawd ynghyd â phob ffurflen a deunydd a anelir at y cyhoedd yn ddwyieithog. Darperir cyfarwyddyd ysgrifenedig, gyda rhestr o'r holl ddefnyddiau, i bob aelod o staff. Yn ddelfrydol, dylid cyflwyno'r fersiynau Saesneg a Chymraeg gyda'i gilydd o fewn yr un cyhoeddiad.

Mae gan yr Adroddiad Blynyddol a Chynllun Plismona'r Heddlu gylchrediad cyfyngedig oherwydd fe'u defnyddir yn bennaf er gwybodaeth i'r Pwyllgor Heddlu. Nid yw'r dogfennau hyn yn ymdrin yn arbennig ag unrhyw un o'r wyth ardal ac felly, nid oes fawr o bwynt cyhoeddi cyhoeddiadau dwyieithog.

Bydd bathodynau ar lifrai'r Heddlu yn ddwyieithog.

Rhoddir cardiau gwarant dwyieithog i bob swyddog sydd wedi ei l/leoli'n barhaol yng Nghymru.

Rydym yn arbrofi gyda dyluniad ar gyfer bathodyn yr Heddlu a byddwn yn dymuno cael sêl bendith Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

### **Arwyddion**

Bydd arwyddion ar adeiladau, cerbydau ac arwyddion dros dro yn ddwyieithog, a bydd yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar bob arwydd yn gydradd o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

### **Tapiau sain a fideo**

Bydd unrhyw dâp a gynhyrchir gan yr Heddlu ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Os nad yw hyn yn bosibl, cynhyrchir tapiau Cymraeg a Saesneg.

### **Ymgyrchoedd ar gyfer y cyfryngau**

Bydd ein hymgyrchoedd ar gyfer y cyfryngau ar deledu a radio Cymraeg yn Gymraeg. Bydd datganiadau i'r wasg hefyd yn ddwyieithog. Bydd ymgyrchoedd a datganiadau i'r wasg yng Nghymru ac i deledu a radio Saesneg yng Nghymru yn ddwyieithog ac eithrio pan fo brys yn ein rhwystro rhag cyflawni hyn. Saesneg fydd iaith ymgyrchoedd a datganiadau i'r cyfryngau drwy Brydain.

Pan fyddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus, bydd yr holiadur yn ddwyieithog ac fe wneir trefniadau i gael cyfweiliadau wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen.

### **Ymgynghorwyr**

Bydd pob ymgynghorydd, dylunydd, argraffydd a chyhoeddwr sy'n gweithio gyda'r Heddlu yn cael ei hysbysu'n llawn ynglyn â gofynion y Cynllun i sicrhau ein bod yn ufuddhau i'r Ddeddf.

### **Stondinau Gwybodaeth**

Os bydd yr Heddlu yn cymryd rhan mewn arddangosfa ac ati, bydd ein hwynebfyrddau ac ati yn ddwyieithog.

### **Hysbysebion Swyddogol**

Bydd arwyddion swyddogol, megis Apêl am lygad-dystion yn dilyn digwyddiad, yn ddwyieithog.

### **Cyhoeddiadau**

Bydd yr Heddlu yn cynhyrchu cyhoeddiadau dwyieithog mewn un ddogfen. Os codir pris am unrhyw gyhoeddiad, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy nag un sydd mewn un iaith, ac os cyhoeddir ar wahân yn y ddwy iaith, bydd pris y ddwy yr un faint.

Pan fo cyhoeddiadau ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, gwneir trefniadau i sicrhau y cyhoeddir hwy yr un pryd (gan gynnwys cydweithio gyda swyddfeydd sy'n cyhoeddi'r fersiwn Saesneg ar gyfer Lloegr) a'u bod ar gael yr un amser (yn cael eu harddangos a'u dosbarthu gyda'i gilydd, naill ai drwy'r post neu dros y cownter ac ati).

## **5. GWEITHREDU'R CYNLLUN**

### **5.1 Recriwtio a Hyfforddiant**

- Bydd yr Heddlu'n nodi'r gweithleoedd a'r swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rheiny lle mae'n ddymunol. Bydd disgrifiadau swydd yn cael eu llunio yn unol â hyn.
- Os yw'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd ein hysbysebion recriwtio yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg ac yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau eraill sy'n cylchredeg yn bennaf yng Nghymru. Pan fo'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, bydd hynny'n cael ei ddatgan yn yr hysbyseb.
- Mae'r Heddlu yn ymrwmo i sicrhau bod rhaglen recriwtio yn annog siaradwyr Cymraeg i ymuno â'r Heddlu, naill ai fel heddwes neu swyddog sifil. Bydd y rheiny sy'n gyfrifol am recriwtio, hyfforddi ac arolygu staff yn cael eu hysbysu o'r gofynion hyn.
- Cefnogir aelodau o'r staff sy'n dymuno dysgu neu wella eu gallu i siarad Cymraeg. Bydd rhaglenni dysgu a hyfforddi yn cael eu trefnu i ganolbwyntio ar y gweithle a'r safleoedd.
- Bydd yr Heddlu, drwy arolygu ei weithlu, yn nodi gallu ei staff i siarad Cymraeg.
- Pan benodir rhywun nad yw'n siarad Cymraeg i swydd lle ystyrir fod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd raid i'r unigolyn hwnnw/honno ddysgu'r iaith o fewn cyfnod y cytunir arno.
- Bydd staff presennol mewn swyddi lle mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn angenrheidiol yn cael cynnig hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg.
- Gan mai nifer fechan o staff sydd yn siarad Cymraeg, nid yw hyfforddiant galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ymarferol ar hyn o bryd.

### **5.2 Trefniadau Gweinyddol**

- Mae'r Prif Gwnstabl wedi ymrwmo'n llawn i'r trefniadau a amlinellir yn y cynllun hwn.
- Mae'r cynigion hyn wedi eu trafod yn llawn a'u derbyn gan uwch swyddogion yn yr Heddlu.

- Mae'r Heddlu yn ymrwymo i gyfuno agweddau ar yr iaith Gymraeg yn ei wasanaeth o fewn ei brosesau gweinyddol cyffredin.
- Mae cyfuno'r Cynllun o fewn gwaith yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yng Nghymru yn amcan o fewn Cynllun Strategol yr Heddlu a'r Cynllun Plismona.
- Y Dirprwy Brif Gwnstabl sy'n benodol gyfrifol am sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu a'i arolygu, a gellir cysylltu ag ef yn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, Pencadlys yr Heddlu, PO Box 260, 15 Tavistock Place, Llundain. WC1H 9SJ.
- Bydd llyfryn gwybodaeth yn cael ei ddarparu ar gyfer pob aelod o staff yng Nghymru yn egluro'r Cynllun a sut y gweithredir ef. Bydd yn cynnwys adran ymgynghorol ar gyfer aelodau o staff nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- Gwneir trefniadau i osod templedi ar gyfer llythyrau a dogfennau eraill yn ôl yr angen ar systemau cyfrifiadurol presennol a rhai'r dyfodol.
- Pan ofynnir i gwmnïau ddylunio system gyfrifiadurol a allai gael dylanwad ar y cyhoedd yng Nghymru, bydd y cwmnïau hynny yn cael gwybodaeth am y Cynllun.

### **5.3 Siaradwyr Cymraeg**

Bydd yr Heddlu'n sicrhau bod siaradwr Cymraeg cymwys ar gael i'r cyhoedd yn ein gorsafoedd yng Nghymru a fydd yn gallu ymdrin ag aelod o'r cyhoedd ar y dechrau, neu drefnu iddynt siarad â rhywun sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl.

Llunir rhestr o'r staff sy'n siarad Cymraeg neu'n dysgu'r iaith a ble maent yn gweithio. Bydd y rhestr yn cael ei hadolygu'n gyson a'i defnyddio i roi gwybod i bob aelod o staff am y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg.

Bydd yr Heddlu yn sicrhau bod pob galwad ffôn a dderbynnir yn ei orsafoedd yng Nghymru yn cael eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog.

### **5.4 Dysgu Cymraeg**

Bydd yr Heddlu yn annog staff i ddysgu Cymraeg. Rhoddir blaenoriaeth i'r rheiny sy'n ymdrin â'r cyhoedd.

Mae'r Heddlu eisoes yn darparu gwersi ar gyfer staff sydd am ddysgu'r iaith Gymraeg.

## **5.5 Cyfieithwyr**

Bydd unrhyw gyfieithwyr a gyflogir gan yr Heddlu yn addas a chanddynt gymwysterau priodol, ac fe'u dewisir o blith y rhai a restrir yng Nghyfeirlyfr Cyfieithwyr Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu unrhyw gorff priodol arall.

## **5.6 Cyfarwyddiadau a Chyngor**

Bydd pob aelod o staff sy'n cynllunio a gweithredu'r gwasanaeth yn cael eu hysbysu am y Cynllun drwy gyfarwyddiadau rheoli gyda chymorth canllawiau ysgrifenedig.

Pan gyflogir asiantwyr gan yr Heddlu yng Nghymru drwy dendro cystadleuol, bydd yr Heddlu'n sicrhau bod yr asiantwyr hynny'n gweithredu pob rhan o'r Cynllun fel sy'n ofynnol. Bydd hyn yn cael ei nodi ar y dogfennau tendro a'r cytundebau.

## **5.7 Anfon gwybodaeth i eraill**

Pan fo gwybodaeth am bobl yn cael ei hanfon at eraill (er enghraifft, gellir anfon manylion am rywun yn y ddalfa i heddlu arall yng Nghymru, y llysoedd, y Gwasanaeth Prawf a Gwasanaeth Erlyn y Goron) rhoddir gwybod yn glir i'r rheiny sy'n derbyn yr wybodaeth beth yw dewis iaith yr unigolyn hwnnw/honno.

## 6. MONITRO'R CYNLLUN

### 6.1 Bydd yr Heddlu yn monitro'n benodol:

- **Cynllunio a datblygu yn y dyfodol** – bydd yr Heddlu yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
- **Ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg** – arolygu perfformiad gan edrych ar amseroedd a gymerwyd i ateb gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd ymholiadau yn y ddwy iaith yn cael eu cydnabod o fewn saith diwrnod ac ymateb llawn o fewn 28 diwrnod pryd bynnag y bydd yn ymarferol i wneud hynny.
- **Delwedd gyhoeddus** – delwedd gyhoeddus yr Heddlu yng Nghymru; cyflwyno nodiadau, ffurflenni, arwyddion a deunydd cyhoeddusrwydd yn ddwyieithog.
- **Staffio** – gweithredu a rhaglennu camau hyfforddi fel y disgrifir hwy yn y Cynllun.
- **Asiantwyr a Chontractwyr** – asiantwyr a chontractwyr yr Heddlu yn darparu a gweinyddu ein gwasanaethau i sicrhau eu bod yn cydsynio ag amodau eu cytundebau neu drefniadau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.
- **Amserlen** – mesur gweithrediad y Cynllun yn unol â'r dyddiadau targed.
- **Cwynion** – perfformiad yn ôl nifer a natur cwynion sy'n berthnasol i'n gwasanaeth iaith Gymraeg.
- **Dangosyddion perfformiad** – Arolygir ein perfformiad yn yr iaith Gymraeg gan Benaethiaid y tair Ardal Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig sy'n gyfrifol am Gymru; cyhoeddir y canlyniadau gan y Prif Gwnstabl yn ei adroddiad blynyddol.
- Dangosir dyddiadau targed gyferbyn â phob adran yn y testun.

## **6.2 Cyhoeddi gwybodaeth**

Bydd yr Heddlu'n cyhoeddi pa mor llwyddiannus fu'r staff yn gweithredu'r defnydd o'r Gymraeg; bydd hyn yn cynnwys:

- Arwyddion dwyieithog
- Datganiadau dwyieithog i'r wasg
- Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd dwyieithog
- Nifer y staff sy'n mynychu cyrsiau i ddysgu'r Gymraeg
- Manylion am berfformiadau ieithyddol asiantwyr/cwmnïau sy'n gweithio o dan gytundeb i'r Heddlu.

Bydd yr Heddlu yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar ei berfformiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

## **6.3 Cyhoeddusrwydd**

Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am ein gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg yn barhaus; er enghraifft, arddangos rhestrau a nodiadau yn ein gorsafoddedd Heddlu, darparu ffurflenni esboniadol, a rhoi sylw iddo mewn dogfennau tebyg i'r Adroddiad Blynyddol.

Byddwn yn cyhoeddi datganiad yn y wasg ynglyn â lansiad y Cynllun yn y papurau newydd yng Nghymru. Bydd hyn hefyd yn hysbysu'r cyhoedd fod copïau o'r Cynllun ar gael yn ein pedair gorsaf heddlu yng Nghymru.

## **6.4 Cyswllt**

Am fwy o fanylion am y Cynllun hwn, cysylltwch â'r:

Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig  
15 Tavistock Place, Llundain, WC1H 9SJ.  
Rhif ffôn: 0171 830 8856 Rhif ffacs: 0171 830 8935

## TABL GWEITHREDU

	<b>Mesur</b>	<b>Dyddiad Targed</b>
3.1	Asesu goblygiadau ieithyddol polisïau neu fentrau newydd	Hydref 1998
3.1	Dyrchafu'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol wrth weithredu polisïau a mentrau newydd.	Hydref 1998
3.2	Galluogi'r cyhoedd i dderbyn gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg gan ein gorsafoedd heddlu yng Nghymru.	Mynd Rhagddo
3.2	Hysbysbu staff sydd ynghlwm wrth ffurfio polisïau o gyfrifoldebau'r Heddlu dan y Ddeddf	Hydref 1998
3.3	Sicrhau cysondeb yn y gallu i gael gwasanaethau Cymraeg yn ein gorsafoedd heddlu yng Nghymru.	Hydref 1998
4.1	Ymateb i ohebiaeth Cymraeg yn Gymraeg	Hydref 1998
4.1	Os galwad ffôn neu gyfarfod yn Gymraeg, gohebiaeth ddilynol yn Gymraeg.	Hydref 1998
4.1	Lle gwyddir mai Cymraeg yw dewis iaith y derbynnydd, gohebu'n Gymraeg.	Ionawr 1999
4.1	Gohebiaeth gychwynnol yn ddwyieithog os na wyddir pa ddewis iaith.	Gorffennaf 1999
4.1	Cylchlythyrau a llythyrau safonol dwyieithog at y cyhoedd yng Nghymru.	Ionawr 1999
4.1	Darparu arweiniad i staff ar gyfathrebu yn Gymraeg.	Hydref 1998
4.2	Cyfarchiad ffôn dwyieithog mewn gorsafoedd Heddlu yng Nghymru.	Ionawr 1999
4.2	Os mai dewis iaith yr un sy'n galw yw Cymraeg, gwneud trefniadau i gael siaradwr Cymraeg	Gorffennaf 1999
4.2	Cadw rhestr o'r aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg.	Ionawr 1999
4.3	Sefydlu trefniadau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus dwyieithog yng Nghymru.	Gorffennaf 1999

4.4	Cynnig y defnydd o unrhyw un o'r ddwy iaith i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru wrth iddynt gael eu cyfweld yn ffurfiol, neu wrth iddynt gysylltu â'r heddlu mewn cyfarfodydd nad ydynt yn rhai cyhoeddus	Ionawr 1999
4.4	Arwyddion priodol mewn gorsafoedd heddlu yng Nghymru yn nodi y gellir defnyddio unrhyw un o'r ddwy iaith.	Ionawr 1999
4.4	Sefydlu dewis iaith cyn annerch grwpiau, cymdeithasau, ysgolion, etc.	Hydref 1998
4.5	Hunaniaeth gorfforaethol cwbl ddwyieithog yng Nghymru	Hydref 1998
4.5	Deunyddiau ysgrifennu dwyieithog, etc.	Hydref 1998 hyd at Fawrth 1999
4.5	Bathodyn dwyieithog ar lifrai yng Nghymru	Ionawr 1999
4.5	Cardiau gwarant dwyieithog i'r holl swyddogion sydd wedi eu lleoli'n barhaol yng Nghymru	Medi 1998
4.5	Arwyddion dwyieithog, cyfartal o ran maint ac amlygrwydd, ar adeiladau, cerbydau newydd, etc, yng Nghymru.	Hydref 1998
4.5	Yn amodol ar argyfyngau gweithredol, datganiadau newyddion i'r wasg ac ymgyrchoedd i fod yn ddwyieithog, ac yn Gymraeg ar deledu a radio Cymraeg.	Gorffennaf 1999
4.5	Holiaduron arolygon cyhoeddus i fod yn ddwyieithog a chyfweliadau rhyngwynebu yn Gymraeg os oes angen.	Gorffennaf 1999
4.5	Yr holl ymgynghorwyr, cynllunwyr, argraffwyr, etc, a ddefnyddir gan yr Heddlu i fod yn ymwybodol o ofynion y Ddeddf.	Mynd rhagddo
4.5	Stondinau gwybodaeth a hysbysiadau swyddogol yn ddwyieithog	Mawrth 1999
4.5	Cyhoeddiadau dwyieithog mewn un ddogfen neu, os ar wahân, eu cyhoeddi gyda'i gilydd.	Mawrth 1999

5.1	Hysbysebion recriwtio naill ai'n Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg neu'n ddwyieithog mewn eraill yn dibynnu ar yr angen o ran gallu ieithyddol mewn swyddi.	Mawrth 1999
5.1	Annog siaradwyr Cymraeg i ymuno â'r Heddlu yng Nghymru naill ai mewn swydd heddlu neu swydd sifil.	Mawrth 1999
5.1	Cynnig hyfforddiant i staff presennol mewn swyddi a ddiffinnir fel rhai sydd angen siaradwyr Cymraeg.	Hydref 1998
5.1	Rhoi cefnogaeth i staff y mae'n ofynnol iddynt ddysgu'r iaith Gymraeg neu sy'n dymuno gwneud hynny.	Yn weithredol
5.2	Darparu arweiniad i staff, ar ffurf llyfryn gwybodaeth, ar y Cynllun a'i weithrediad.	Mawrth 1999
6.1	Adolygu gweithrediad y cynllun a'i dargedau	Yn Flynyddol
6.2	Rhoi cyhoeddusrwydd i lwyddiant y Cynllun	Ionawr 1999 – Hydref 1999
6.2	Adroddiad ar berfformiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Yn Flynyddol
6.3	Rhoi gwybod i'r cyhoedd Cymraeg yn barhaol am y gwasanaeth iaith Gymraeg.	Hydref 1998
6.3	Cyhoeddi datganiad i'r wasg ar lansiad y Cynllun mewn papurau newydd yng Nghymru a bod copïau ar gael yn ein pedair gorsaf heddlu yng Nghymru.	Yn dilyn cymeradwyaeth swyddogol i'r Cynllun.